# CONWY AND DENBIGHSHIRE PUBLIC SERVICES BOARD

Cofnodion cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych a gynhaliwyd yn Ystafell Elidir, Gorsaf Dân Gymunedol y Rhyl, Coast Road, y Rhyl, ddydd Iau, 28 Medi 2017 am 1.30 pm.

| | | |
|---|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Bethan Jones (Cadeirydd) | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| | Sian Beck | Heddlu Gogledd Cymru |
| | Iwan Davies | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| | Cynghorydd Gareth Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| | Mohammed Mehmet | Cyngor Sir Ddinbych |
| | Sioned Rees | Llywodraeth Cymru |
| | Simon Smith | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| | Helen Wilkinson | Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych |
| | Sian Williams | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| **SWYDDOGION:** | Hannah Edwards | Swyddog Datblygu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (CBS Conwy) |
| | Nicola Kneale | Rheolwr Cynllunio Strategol (Cyngor Sir Ddinbych) |
| | Fran Lewis | Rheolwr Perfformiad a Gwelliant Corfforaethol (CBSC) |
| | Shân Morris | Rheolwr Cynllunio Corfforaethol (Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru) |
| | Megan Vickery | Swyddog Ymgysylltu (Canolog, BIPBC) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Steve Price | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd, Cyngor Sir Ddinbych |
| | Sharon Walker | Gweinyddwr Pwyllgorau, Cyngor Sir Ddinbych |

## 1 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Hugh Evans (Cyngor Sir Ddinbych), Andy Jones (Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol), Wendy Jones (Cefnogaeth Gymunedol a Gwirfoddol Conwy), Rebecca Masters (Iechyd Cyhoeddus Cymru) a Dr Evan Moore (Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr).

## 2 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych a gynhaliwyd ar 26 Gorffennaf 2017 i'w cymeradwyo.

Cofnod 12 – cadarnhaodd Swyddog Datblygu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (Hannah Edwards) y byddai gwybodaeth gan Llywodraeth Cymru am y dyletswyddau dan y Ddeddf Cludiant yn ymwneud â'r angen i wella mynediad i opsiynau cludiant effeithlon a fforddiadwy.

Cadarnhaodd Sian Williams (Cyfoeth Naturiol Cymru) y byddai Gweithdy Rhanddeiliaid yn cael ei gynnal ym Mangor ym mis Hydref 2017 – manylion i gael eu dosbarthu i Aelodau.

***PENDERFYNWYD*** *y dylid cymeradwyo cofnodion cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych a gynhaliwyd ar 26 Gorffennaf, 2017.*

## 3 MATERION YN CODI

Cadarnhaodd Swyddog Datblygu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (Hannah Edwards) ei bod wedi ysgrifennu at Bartneriaid a wahoddwyd a'i bod wedi cysylltu â'r Comisiynydd Trosedd a Phrawf ond nad oedd wedi cael ymateb eto.

Cadarnhaodd Sioned Rees (Llywodraeth Cymru) y bydd yn cyflwyno adroddiad ar Effaith Brexit ar Gyllid yr UE yn y cyfarfod a gynhelir ar 30 Tachwedd 2017.

Dangosodd y Cadeirydd ei diolchgarwch i'r gweinyddydd am gofnodi manylion y cyfarfod gan ei bod wedi bod yn sesiwn hir iawn.

## 4 TEMPLED ADRODDIAD BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS – PRAWF LLES Y CYHOEDD

Dywedodd Swyddog Datblygu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (Hannah Edwards) wrth Aelodau am y ffurflen prawf lles y cyhoedd Awdurdod Lleol diwygiedig y gellid ei defnyddio ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn y dyfodol.

Cafwyd trafodaeth a chadarnhawyd bod Cyngor Sir Ddinbych wedi datblygu templed Asesiad o Effaith ar Les y gallai'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ei ddefnyddio fel sylfaen i lunio eu templed eu hunain.

Codwyd cwestiwn am leoliadau'r dyfodol a allai ddarparu ar gyfer aelodau'r cyhoedd. Cadarnhaodd Swyddog Datblygu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus y byddai'n holi am leoliadau sydd ar gael ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol.

***PENDERFYNWYD***

(i) *Cymeradwyo Prawf Lles y Cyhoedd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.*

(ii) *Bod cyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael eu gwneud yn gyhoeddus yn y dyfodol.*

(iii) *Bod rhaglen a phapurau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael eu cyhoeddi ar wefan Conwy a Sir Ddinbych cyn y cyfarfod.*

## 5 CYNLLUN LLES DRAFFT

Cyflwynodd y Cadeirydd yr adroddiad Cynllun Lles Drafft i geisio cymeradwyaeth ar gyfer ymgynghoriad.

O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, roedd yn ofynnol i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus baratoi a chyhoeddi Cynllun Lles, a oedd yn nodi ei amcanion lleol a'r camau mae'n cynnig eu cymryd i'w bodloni.

Roedd y Cynllun a gyflwynwyd i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ddrafft cyntaf i ganfod barn ac awgrymiadau am y ddogfen.

Yn ystod trafodaethau, awgrymodd Aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus:

- bod rhagor o graffeg a disgrifiadau sylfaenol yn cael eu defnyddio yn hytrach na datganiadau a oedd yn rhy dechnegol i'r cyhoedd.
- bod angen i'r cynllun fod yn efel uchel a thynnu cyfeiriad at ganlyniadau a chamau gweithredu penodol.
- bod pob blaenoriaeth yn cael ei dadansoddi'n dri chategori - disgrifiad o'r sefyllfa bresennol, beth fyddai'n digwydd pe na bai rhywbeth yn cael ei wneud, ac uchelgais y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer y dyfodol.
- bod angen i flaenoriaethau yn y Cynllun gael eu halinio â chynlluniau corfforaethol sefydliadau partner.
- bod angen i'r Cynllun ganolbwyntio ar y tymor hir ac effaith beth allai ein cymunedau edrych fel yn y dyfodol.

Codwyd rôl Bwrdd Rhan 9 i geisio osgoi ailadrodd gwaith posibl. Awgrymwyd dylid ymateb i Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru a'r ymgynghoriad Cynllun Rhanbarthol.

Cytunwyd i gadw'r holl flaenoriaethau drafft yn y Cynllun ar gyfer yr ymgynghoriad. Nodwyd y byddai croesgyfeirio'n digwydd os oedd corff ar wahân yn darparu ar yr un flaenoriaeth â'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, ond byddai'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cymryd trosolwg.

Cadarnhawyd byddai ail ddrafft o'r Cynllun yn cael ei lunio yn dilyn yr awgrymiadau a gyflwynwyd yn ystod y cyfarfod a byddai cyfarfod yn cael ei drefnu i fynd drwy'r Cynllun gydag aelodau a oedd yn bresennol (os oeddent ar gael i fynychu).

Byddai Swyddogion yn mynd yn ôl i grwpiau cyfeirio yn ystod y cyfnod ymgynghori.

(b) ARWAIN BLAENORIAETHAU
Cytunwyd i roi'r eitem ar y rhaglen pan oedd y Cynllun allan i ymgynghoriad.

***PENDERFYNWYD***

*(i) Bod y Cynllun Lles yn cael ei ailddrafftio ar gyfer ymgynghori*
*(ii) Cymeradwyo'r cwestiynau ymgynghori arfaethedig*
*(iii) Comisiynu fersiwn cryno gyda dyluniad graffeg o'r Cynllun Lles ar gyfer yr ymgynghoriad*

## 6 TREFNIADAU LLYWODRAETHU AR GYFER Y CYNLLUN LLES

Cyflwynodd Prif Weithredwr Cyngor Sir Ddinbych gyflwyniad llafar ar y Trefniadau Llywodraethu ar gyfer y Cynllun Lles.

Gan ystyried mai un cynllun oedd, roedd yn codi cwestiynau o ran beth oedd y trefniadau llywodraethu ar ei gyfer a phwy fyddai'n cymryd perchnogaeth. Un awgrym oedd y gallai'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gymryd perchnogaeth, neu, gallai swyddogion gymryd arweinyddiaeth flaenoriaethol gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn gyfrifol yn gyffredinol.

Cadarnhawyd os mai'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus oedd y corff llywodraethu, byddai'n cynorthwyo o safbwyntiau sefydliadau. Yna byddai camau gweithredu'n gallu cael eu cymryd allan o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Ni fu dim yn y Ddeddf a fyddai'n atal is-grŵp rhag digwydd o fewn y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a byddai'n gyfle i edrych ar ddull gweithredu gwahanol.

Cytunodd pawb y byddai'n fanteisiol cyflwyno eglurhad i'r holl Aelodau etholedig o beth oedd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a sut roedd yn gweithio. Byddai'n golygu canolbwyntio ar gymunedau yn hytrach na sefydliadau. Ni fyddai mantais mewn creu rhagor o fiwrocratiaeth ond y bwriad fyddai dangos i Aelodau beth oedd gwir bwrpas y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Byddai sylw'n cael ei roi i brosesau partneriaeth roedd nifer o sefydliadau'n gweithio gyda hwy, ac o ganlyniad i'r drafodaeth, yn y cyfarfod nesaf i gael ei gynnal ym mis Tachwedd, byddai blaenoriaethau corfforaethol aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael eu cyflwyno i ddeall yr aliniad rhwng amryw sefydliadau. Byddai'r Bwrdd yn edrych ar sut i ddylanwadu a chefnogi ei gilydd.

Cadarnhaodd Prif Weithredwr Cyngor Sir Ddinbych y byddai'n cau Partneriaeth Strategol Sir Ddinbych a gwirfoddolodd i gyflwyno'r Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2017-2022 yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Cadarnhaodd Heddlu Gogledd Cymru i gyflwyno eu Cynllun Corfforaethol hefyd yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Byddai cyflwyno'r Cynlluniau Corfforaethol mewn cyfarfodydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn broses dreigl.

***PENDERFYNWYD***

*(i)* *Bod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cytuno i gyfarfod gydag Aelodau i roi eglurhad llawn o rôl y Bwrdd.*

*(ii)* *Bod pob partner Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cyflwyno eu Cynlluniau Corfforaethol mewn cyfarfodydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn y dyfodol fel rhan o raglen dreigl.*

## 7 TREFNIADAU CRAFFU BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS

Cyflwynodd Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd, Cyngor Sir Ddinbych, adroddiad ar drefniadau Craffu'r dyfodol ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Ymgynghorwyd â'r Swyddog Craffu yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy o ran yr adroddiad ac roedd wedi cymeradwyo'r cynnwys.

Mae Adran 35 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol bod Pwyllgor Archwilio Llywodraeth Leol yn cael ei ddynodi i archwilio gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer yr ardal honno. Y bwriad yw rhoi cyfrifoldeb am herio ac atebolrwydd yn lleol yn hytrach nag ar Weinidogion Cymru.

Yn ei gyfarfod ym mis Medi 2016, dywedwyd wrth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus fod Llywodraeth Cymru (LlC) wedi comisiynu Llywodraethu Cyhoeddus Cymru i gynnal prosiect ymchwil a datblygu canllawiau ar graffu ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae'r Canllawiau, a gyhoeddwyd ym mis Awst 2017, yn nodi swyddogaeth strategol a phwrpas craffu ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae hefyd yn amlinellu dulliau gwahanol a fabwysiadwyd ar draws Cymru ar gyfer craffu ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

Gyda golwg ar sicrhau bod dyletswyddau statudol sy'n ymwneud â chyhoeddi Cynllun Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael eu cyflawni, mae Pwyllgorau Archwilio dynodedig y ddau Awdurdod Lleol eisoes wedi trefnu bod ystyriaeth o'r Cynllun Lles drafft ar raglenni gwaith eu pwyllgorau ar gyfer cyfarfodydd mis Tachwedd 2017. Bydd hyn yn sicrhau y bydd pwyllgorau'r ddau gyngor yn cael digon o amser i ystyried opsiynau ar gyfer craffu ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn y dyfodol a gwneud darpariaethau addas i sefydlu eu trefniadau a ffefrir yn iawn.

Trafodwyd y canlynol:

- Roedd pob Awdurdod Lleol i wneud penderfyniad ran sut i graffu a p'un a ddylid cael cydbwyllgor craffu.
- Penderfyniad Awdurdodau Lleol fyddai a ellir cyfethol cyrff neu aelodau eraill ar y Pwyllgor Archwilio ar gyfer Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus.
- Oherwydd yr amserlenni a bod angen anfon y Cynllun allan ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus, byddai'r Pwyllgorau Archwilio ar wahân yn cael eu cadw ond dewis a ffefrir y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn y dyfodol fyddai cael Cydbwyllgor Archwilio.
- Byddai archwilio'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael ei roi o flaen pob Aelod Awdurdod Lleol i gael eu barn a byddai'r adborth yn cael ei roi mewn cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn y dyfodol.
- Cytunodd Aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus fod Protocol yn cael ei roi ar waith, un tebyg i'r un a ddefnyddir gan Gyngor Sir Wrecsam, i nodi systemau.

***PENDERFYNWYD** bod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn:*

- *Darparu arsylwadau ar ei drefniadau craffu a ffefrir i Bwyllgorau Archwilio Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus dynodedig Cynghorau Sir Conwy a Sir Ddinbych.*

**8 ADRODDIAD COMISIYNYDD CENEDLAETHAU'R DYFODOL**

Cyflwynodd Rheolwr Cynllunio Strategol, Cyngor Sir Ddinbych, yr adroddiad Cenedlaethol gan y Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi adolygu pob Asesiad Lles cenedlaethol a chynhyrchu adroddiad Cymru gyfan a'i fwriad yw 'helpu aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, timau a'r gwasanaeth cyhoeddus i ganolbwyntio yn fras ar y pethau allweddol y mae angen eu newid, ac i adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd ar y cyd hyd yma'.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys 17 argymhelliad ar draws tair thema.

Eglurwyd bod canllawiau archwilio yn rhoi'r fframwaith cwestiynau i'w cadw ar lefel uchel. Roedd angen ymateb i argymhellion a oedd yn benodol i Gonwy a Sir Ddinbych.

Cytunwyd defnyddio adborth Conwy a Sir Ddinbych yn benodol gan y Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i lunio grwpiau cyfeirio.

***PENDERFYNWYD**:*

- *Gyda nifer o argymhellion i'w hystyried ar draws tri phwnc, awgrymwyd bod pob pwnc yn cael ei roi ar Raglen Gwaith i'r Dyfodol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i'w ystyried yn drylwyr mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.*
- *Mewn cyfarfodydd yn y dyfodol, gellid trafod yr argymhellion mewn fformat gweithdy, gan ystyried y cwestiynau canlynol ar gyfer pob un:*
  - *A yw Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy/Sir Ddinbych yn cytuno â'r argymhelliad?*
  - *Os felly, sut ddylai pethau edrych yn y dyfodol?*
  - *Pa gamau sydd angen eu cymryd i gyflawni'r weledigaeth yn y dyfodol, pwy ddylai fod yn rhan ohono a phryd?*
  - *A yw'r adnoddau ar gael i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus alw arnynt?*

**9 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL**

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol a nodwyd yr ychwanegiadau canlynol:

<u>30 Tachwedd 2017</u>

- Sioned Rees (Llywodraeth Cymru) i gyflwyno adroddiad ar effaith Brexit ar Gyllid yr UE
- Cyflwyno Cynlluniau Corfforaethol gan Heddlu Gogledd Cymru a Chyngor Sir Ddinbych
- Adborth cychwynnol o weithdai a chadarnhau amserlen y Cynllun Lles.

## 10 UNRHYW FATER ARALL

Dywedodd Swyddog Datblygu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wrth Aelodau'r Bwrdd fod Gweithdy Cydweithredol 1,000 Diwrnod Cyntaf yn digwydd ar 13 Rhagfyr 2017 yng Nghaerdydd – caiff manylion eu dosbarthu.

**Daeth y cyfarfod i ben am 3.45pm.**